# DWY
# GERDD
## DDIDDAN,

Yn gyntaf,

Hanes rhyfeddol am hen Wr a fu fyw Flwyddyn yng Ngharchar heb un Tammaid o Fara, ond Llaeth Bron ei Ferch.

Yn ail,

Alaethus Gwyn Un am ei Gariad.

UNIV. COLL. OF WALES & MON. SALISBURY LIBRARY

*CROESOSWALLT:*
Argraphwyd gan W. EDWARDS,

M,DCC,XCIII.

UNIV. COLL. OF S. WALES & MON. LIBRARY

## Ar y "Dôn Fechan."

AR sy'n y bŷd ei gid o Gymru,
Gwrandewch ddarllain hyn o strori,
Trwy bur ddangos yn ystyriol
Faint yw gwrthiau ein Brenin nefol.

Emprwr oedd yn Rhufain gaerog,
O wr cadarn mawr galluog,
Lle bu cyfraith hwn yn raenio,
Pawb oedd raid ymostwng iddo.

A hên wr llwyd o ben cynghorwr,
Oedd yn deilio ar Gowrt yr Emprwr,
A than ei Badge o'n gwisgo ei siecced,
A chan hwn 'roedd tair o ferched.

A phan ganfu 'r gwr ei amser,
Casglu a wnaeth o ynghyd ei bywer;
A dwy o rhain ei hun a rodde,
Wrth ei fodd mewn uchel raddau.

A'r drydydd ferch mewn serch gariadus,
A briododd wrth ei h'wyllys,
Ag ni chafodd hi 'n naturiol,
Fodd ei thad nag un o'i phobl.

Ag o draethu ichwi 'r testyn,
Fel y mae y pwynt yn canlyn,
Trwy ryw achos syrthiai 'r Emprwr,
Mewn digofaint a'i gynghorwr.

Ac yna y pwyntiai'r Emprwr cadarn
Roi'r henwr llwyd dan saith glo haiarn;

Ac

A'r ſawl a roddai iddo ei luniaeth,
Fe gai ſilain hyll farwolaeth.

Fe fu yno ddeng nŷdd hirion,
A deng nos mewn lloes i'w galon,
Heb gael cymmaint yn ddiammau,
A dafn o ddwr i wlychu ei enau.

A phan glybu 'r ferch dylotta,
Fod ei hanwyl dad ar y gwaetha,
Hi ae yn ffyddlon union awydd,
Yn ddi chwant at ei chwiorydd.

Hi draetha wrth ei chwiorydd enwog,
Gwnewch ryw ymddiffyn yn drugarog,
I'ch anwyl dad ſydd yn nychu,
Yn dwyn newyn mawr ar lawr carchardy.

Hwythau attebent mor ddigynnwr,
Fe ddarfu cyfraith gaeth yr Emprwr,
I farwolaeth ei gondemnio,
Nid eill neb roi lluniaeth iddo.

Beth er hynny gwnewch drugaredd
A'ch anwyl dad a'ch rhoes mewn mawredd,
Sydd yrwan yn dwyn newyn
Ers deng niwrnod heb friwſionyn.

Hwythau attebent mo'r ddi ymwared,
Fel y gwnaeth boed iddo ei weithred,
Nid oes mor help i'r peth a baſio,
Cau dy ſafn no ſôn am dano.

Hi ae oddiyno yn drom ei chàlon,
Ar ol hyn o dyn attebion,

Tan och'neidio 'n drist ei chyswr,
Hi ae. 'n manger bron yr Emprwr.

Ac yno y syrthiai hi ar ei deulin,
I grio 'n dost ger bron y Brenin,
Am gae mynd unwaith mewn modd dichwith
Cyn marw ei thad i geisio ei bendith.

Appwyntio gwyr au tyngu 'n galed,
I chwilio 'r ffyddlon ferch cyn llwyred,
Fel nad alle 'n ddirgel guddio
Effaith dim o'r lluniaeth iddo.

A phan ddaeth hi gynta i'r cyffe,
Hi dynnai ei gwallt yn hallt ei dagre,
Ac oddiar ei deulin noethion,
Yn cofleido ei Thad yn ffyddlon.

He dd'wedai wrtho mo'r dosturus,
Chwychwi ydi fanwyl Dad cariadus,
Nid oes mo'r modd i gael dirgelion,
Oni fugnwch laeth fy nwyfron.

Ac yna fugnai 'r hen wr penllwyd
Laeth o'i dwyfron yn ddi arswyd:
Trwy râd Duw, a'i wrthiau hyfryd,
Hwnw gadwodd iddo ei fywyd.

Fo fu yno un dydd a blwyddyn,
Yn y Seil heb gael briwsionyn
O ffrwyth y ddaëar at ei galon,
Ond bronnau ei ferch gywir-ferch ffyddlon.

A phan glybu 'r Emprwr enwog
Ei fod yn llawn o raen galluog,

Pa

Fe yrrai i gyrchu 'r gŵr o garchar,
Ger ei fron i'w holi yn ſomgar.

A phan ddaeth i'r Court reioltus,
Yr roedd ei gorph o wêdd gariadus;
Ger ei fron i'w examio 'n helaeth,
Ac ar ei lw beth oedd ei luniaeth.

Fe draethai 'r henwr llwyd mo'r ddifri,
Myn y llw y rwy'n ei roddi,
Ni ches i o ymborth yn fy ngharchar,
Ond llaeth dwyfron fy merch ffyddlongar.

Fe draethai'r Emprwr wrtho 'n dyner,
Tra parhao dyddiau d' amſer,
Yn fy nghowrt ti gei reoli,
Ym myſg Ieirll a phen Arglwyddi.

Ath dithau'r ffyddlon ferch gywirdro,
Am iti fod mo'r bur a'i ſafio,
Ti gei barch trwy fawr lawenydd,
A meddiannu 'ſtât dy chw'iorydd.

Rhoes yr Emprwr trwy reolti,
Bywer urddas addas iddi,
Am iddi fod i'w Thad mo'r ffyddlon.
Yn well na chant o'i chw'iorydd beilchion.

Felly ceiff yn gywir waſtad,
Y ſawl a fo trwy ffydd a chariad,
Yn caru ei dad a'i fam trwy fforyn,
Fe rydd Criſt ei ddwylo droſtyn.

Ond y ſawl a fyddo a'i ffydd yn ffyrnig,
Heb garu ei dad a'i fam yn unig,

Siccr iawn, na amheüed undyn,
Na rydd Duw ddiſtrywiad iddyn.

Os daw gofyn rhwng cymdeithion,
Pwy troes hwy 'n ſaith o iaith y Saeſon,
Nad ymbledied neb o gwmpas,
Dyweded pawb mai Ifan Tomas.

"Heavy Heart."

POB gwr ifangc hardd ei 'mddygiad
Sy'n byw 'n llon mewn llan a marchnad,
Gwrandewch ar drymion gwynion geni,
A bara i'r galon dirion dorri ;
Mi fym gynt yn llawen ddigon, gyda gweddol
Lon odiaethol lan gymdeithion,
Ond oer ofid ſydd yrwan, yn lle diddanwch,
Mi eis i driſtwch rydwy 'n drwſtan.

Cerais lodes gynnes geinwen,
Lon ireiddbleth loweth lawen,
A chalon hon loer union heini,
Mewn ſwydd hyffordd ſydd i'm hoffi,
A minne'n chwanndg mi a gychwynwn heb betruſo,
Yn ddi gilio i'r man y gwelwn :

Un

Un anadlodes yn y gwledydd, mi a ddewifwn,
Y hi a garwn dan frig irwydd.

Gwneud goreu ag allwn drwy deg 'wyllys,
I feddiannu 'r feinir ddawnus,
Mewn caredigrwydd hylwydd helaeth,
Ni a gyttuem yn gwit unwaith ;
A phan glybu ffrins fy nghariad, gan gynfigen,
Ni chae fy feren am fi fiarad ;
Ei holl geraint rydwy 'n gwirio, fydd yrwan
Mewn gwyn anian yn gwenwyno.

A'm ffrins inneu mo'r ffroen furion,
Ag yn gethin eu bygythion ;
Yn dweud geiriau di drugaredd,
Na ddai mo honno byth i'w hannedd,
A minneu fydd dan gyftydd gwaftad,
Geiriau am gyrrodd,
Pan bryfurodd pawb i fiarad,
Och i'r awr! ac och i'r munud,
Y ces ymgomio, a rhoi fy nwylo am f 'nwylyd.

Nid oes ammeu heb loes imi,
Am bob rhyw ammodau ymado a'i chwmni,
Er gwaetha dynion diflas dannau,
Sy'n ddig aruth yn eu geiriau,
Ni cheir heb gerydd awr o garu, gan mo'r filen,
Yw'r gynfigen maent i'w fagu,

Pawb

Pawb yn ſydyn heb arſwydo, ſydd yn hwylus,
Mewn modd cyhoeddus i'n cyhuddo.

Er bod athrodion drwg weithrediad,
Yn dwyn cerydd rhyngwy' am cariad;
Yn oed fy nyddiau goiau gwiwlan,
Oddiwrth fy nghowlaid ni thry 'nghalon,
Pe hwnai meinir fy nymuniad, er gwaetha dynion,
Sydd dra ſurion yn ymſiarad,
Mewn clau ammod mynnai'n clymmu
Mewn modd gwiwlon,
A rhoi 'r ddwy galon yn 'r un gwely.

D I W E D D.

UNIV. COLL. OF S. WALES & MON. SALISBURY LIBRARY